

SOSIALAETH: GWEITHGAREDDAU

Cymharu ffrydiau sosialaidd gwahanol (A01, A02)

Mae'r tabl isod yn amlinellu ystod o safbwyntiau sosialaidd gwahanol. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac yna rhannwch y safbwyntiau yn: i) rhai y byddai Marcswyr yn eu harddel; a ii) rhai y byddai Democratiaid Cymdeithasol yn eu harddel.

Yna, ceisiwch drefnu'r pwyntiau mewn modd a fyddai'n caniatáu i chi lunio ateb effeithiol i'r cwestiwn canlynol: 'Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng Marcsiaeth a Democratiaeth Gymdeithasol?'

Mae angen cydnabod bod gan fasnachu preifat ei le o fewn cymdeithas. O ganlyniad dylid cyfyngu mesurau sy'n sefydlu rheolaeth gyffredin i rai meysydd allweddol yn unig.	Dylid amcanu at ddileu perchnogaeth breifat ar y moddion cynhyrchu, a thrwy hynny sicrhau bod y broses o gynhyrchu a dosbarthu nwyddau yn troi o fod yn un sy'n seiliedig ar y nod o wneud elw i unigolion i fod yn un sy'n anelu i ateb gwir anghenion cymdeithasol.
Dim ond trwy ddymchwel cyfalafiaeth yn llwyr a sefydlu cymdeithas gomiwnyddol amgen yn ei lle y gellir gobeithio sicrhau cyfiawnder a chydaddoldeb cymdeithasol.	Dros amser dylid amcanu at sefyllfa lle bo gwahaniaethau dosbarth wedi diflannu'n llwyr fel nodwedd o gymdeithas.
Mae cyfalafiaeth yn gyfundrefn sy'n esgor ar ystod o broblemau, ond gellir sicrhau cyfiawnder a chydaddoldeb cymdeithasol trwy gyflwyno mesurau sy'n ei diwygio a'i ffrwyno	Dim ond trwy chwyldro a fydd yn trawsnewid cymdeithas yn llwyr y gellir gobeithio cyflwyno sosialaeth.
Gellir cyflwyno sosialaeth mewn modd graddol a hynny wrth i bleidiau sosialaidd gipio grym trwy ennill etholiadau democrataidd	Y gobaith tymor hir yw y bydd modd lleiahau ar lefel yr anghydaddoldeb a geir rhwng gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.